



## Oes arnoch chi awydd cael iachâd neu ddatblygu'n ysbrydol?

S'mai? **Margaret Fleischmann-Ellis** ydw i ac rydw i'n byw yn **Elizabeth House**, Dolwyddelan. Os nad ydych chi'n fy adnabod i mae'n siŵr eich bod yn adnabod fy nghi, **Jenson**, y Staffie mwyaf swnllyd i mi *erioed* cael y pleser o'i adnabod!

Wrth i mi ysgrifennu hyn o lith mae hi'n anodd credu bod oddeutu blwyddyn wedi mynd heibio ers i mi symud i'r pentref! Diolch am gynhesrwydd y croeso ac am fy nerbyn i i'ch plith – daeth yr ymgartrefu'n hawdd iawn o ganlyniad .....

Rŵan 'te. Faint ohonoch chi sydd â diddordeb yn unrhyw un o'r pethau hyn:  
★ Iachau drwy ynni (Beth ydy o; ydy o'n gweithio; a llawer mwy) ★ Crisialau (Pam ydym ni wedi gwirioni cymaint arnyn nhw; ydyn nhw'n medru iacháu? Pa hanesion sydd yna amdany'n nhw) ★ Myfyrio a dychmygu (cyflwyniad a chyfle i ddatblygu'r sgiliau) ★ Y Goeden Fywyd – sut mae deall hyn o gymorth i chi yn eich bywyd

Rydw i wedi cymhwyso fel iachawraig ynni a gweithiwr datblygu ysbrydol ac yn trefnu cyfleoedd i archwilio'r pynciau hyn a mwy. Mi fyddai'n ddefnyddiol iawn, cyn i mi wthio'r cwch yn rhy bell i'r dŵr, cael gwybod faint o ddiddordeb a chefnogaeth fyddai yna i gynnal y math yma o weithgareddau yn y pentref. Dydy hi ddim yn fwiad gen i godi mwy na sydd ei angen – dim ond digon i mi dalu fy nghostau - felly does dim angen i unrhyw un feddwl ein bod ni'n sôn am arian mawr.

Os oes diddordeb gennych chi, ffoniwch fi ar **07792420581**

Ebostiwch [m.ellis.301@btinternet.com](mailto:m.ellis.301@btinternet.com)

**Neu curwch wrth y drws (yn uchel)!**

---

**TUDALEN FACEBOOK NEWYDD** – I'r rheini ohonoch chi sy'n defnyddio Facebook, dyma dudalen newydd a all fod o ddiddordeb i chi, 'Lledr Valley – Dolwyddelan History'. Mae'r dudalen newydd hon yn gysylltiedig â gwefan [lledrvalley.org](http://lledrvalley.org) sy'n garedig iawn yn anfon pytiau o newyddion hanesyddol atom ni.

